



Atodiad:

Cyflwyno'r Rhaglen ARhPh yng Ngwynllyw

CA3

Yn CA3, cyflwynir sail y rhaglen ARhPh gan y gydlynnydd ABCh. Trefnir bod asiantaethau allanol a weithwyr ieuchyd proffesiynol (megis; nyrs yr ysgol, "Sex Matters", Rebecca Wride o Dorfaen) yn cyflwyno'r prif elfennau ARhPh i'r disgyblion yn ystod diwrnodau di-gyswllt tymhorol.

Cydnabyddir bod addysg cyfoedion yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau ac ymddygiad dysgwyr yn ogystal. Felly mae'r ysgol yn manteisio ar bob cyfle i ddarparu "Addysg Cyfoedion" er mwyn cyflwyno elfennau o'r rhaglen ARhPh, trwy wahodd "addysgwyr cyfoed" (e.e. Disgyblion chweched Ysgol Gyfun Llantarnam) sydd wedi'u hyfforddi i'r ysgol i gyflwyno gwybodaeth ARhPh ac ateb cwestiynau'r disgyblion mewn ffordd ddealladwy a hygyrch.

Yn ogystal a hynny bydd athrawon sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig weithiau yn gyfrifol am ddarpariaeth yr addysgu yn achlysurol, gyda tiwtoriaid dosbarth yn cynnal trafodaethau dosbarth ar adegau priodol er mwyn ategu at ac arfarnu'r gweithgareddau ABCh a chyflwynir.

CA4

Yn CA4, athrawon sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig sy'n gyfrifol am ddarpariaeth y cynlluniau gwaith Addysg Rhyw i fl.10 ac 11 trwy strwythr dysgu y fframwaith y Cylchdro ABCh sydd yn bodoli yn yr Ysgol. Bydd y disgyblion yn derbyn gwersi ARhPh gan athrawon profiadol yn ystod y flwyddyn. Ar ben hynny, bydd disgyblion yn elwa o ymweliadau wrth Heddlu Gwent a fydd yn ddarparu gwersi arbennig sydd yn ymwneud a newidiadau a thueddiadau rhywiol yn y gymdeithas; mae natur yr addysgu yn ymateb i straeon newyddion yn y wasg ac achosion ysgeler o drosedd sydd yn peri risg i bobl ifanc.

Cyfansoddiad y Grwpiau Addysgu

Am y weithgareddau ABCh tymhorol yn CA3 a'r gwersi ffurfiol ARhPh yn CA4, yn aml iawn bydd disgyblion yn cael eu gosod mewn grwpiau bugeiliol yn dilyn patrwm cofrestrir blwyddyn; mae hyn yn annog teimlad o gydraddoldeb oherwydd bydd disgyblion o alluoedd wahanol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ARhPh gyda'i gilydd. Mae'r grwpiau yn cael eu cyfansoddi felly o grwpiau rhyw cymysg a gallu cymysg.

Cynnwys y Rhaglen ARhPh (Cwricwlwm)

- Yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd disgyblion yn ddilyn unedau o waith yn eu hysgolion cynradd a fydd yn darparu cyfleoedd i astudio enwau, safleoedd, swyddogaethau a meintiau cymharol prif organau bodau dynol.

- Yng Nghyfnod Allweddol 3 yng Nwynllyw, bydd y disgyblion yn dilyn unedau o waith yr Adran Addysg Gwyddoniaeth sydd yn adeiladu ar sail yn cynradd er mwyn astudio adeiledd a gweithredu sylfaenol celloedd, meinweoedd, organau a systemau organau a sut y maent yn cynnal prosesau bywyd hanfodol.

ARhPh yn yr Rhaglen ABCh Presennol

Rheolau Sylfaenol:

Ar ddechrau pob uned neu gweithgaredd bydd disgyblion yn cael eu hatgoffa o'r rheolau sylfaenol isod er mwyn sicrhau effeithiolrwydd y sesiynau ARhPH:

- bydd pawb yn cael eu trin â pharch
- rhaid i unrhyw gwestiynau fod yn addas ar gyfer yr amgylchedd dysgu
- byddwn (yr athro/athrawes neu'r dysgwr) yn osgoi rhannu gwybodaeth bersonol
- byddwn oll yn herio rhagfarn yn gyson a byddwn oll yn parchu amrywiaeth
- byddwn yn defnyddio'r geiriau cywir ar gyfer rhannau o'r corff a gweithgarwch rhywiol.

Bl.7 - Y Mislif/Glasoed

Yng Ngwynllyw deallir pwysigrwydd paratoi'r merched ar gyfer y mislif, ond hefyd ei fod yn bwysig i addysgu'r bechgyn am y mislif hefyd. Trefnir cyfleoedd ddigonol a sensitif i helpu merched i ymdopi â'r mislif ac â cheisiadau am damponau neu dyweli fislif. Mae'r cyfleusterau gwaredu addas ar gael yn rhwydd mewn man priodol. Bydd nyrs yr ysgol yn cwrdd gyda'r disgyblion fel un i drafod newidiadau'r corff a hylendid personol; trafodaethau grwpiau bach yn ddilyn gyda'r merched ar wahan er mwyn dosbarthu dyweli fislif i'r flwyddyn; pawb (bechgyn a merched) yn gwyllo ffilm am newididau glasoed fel un yn y Talwrn; disgyblion yn derbyn pamffledi unigol am newidiadau'r corff yn ystod glasoed; cyflwyniad fras i berthnasoedd rhywiol - pwysleisio pwysigrwydd ymddiried yn y person cyn cychwyn perthynas rhywiol; annog disgyblion i aros nes eu bod yn digon aeddfed cyn dechrau arbrosi yn rhywiol.

Bl.8

Gweithwyr iechyd proffesiynol yn cyflwyno gwybodaeth ar berthnasoedd iach sydd yn ennyn gyfartaledd rhwng ddau person; disgyblion yn gwyllo clipiau o ffilmiau sy'n ddangos anghyfartaledd a chreulondeb mewn perthynas ac yn trafod y goblygiadau; disgyblion yn creu rhestr o nodweddion a ddisgwyliadau gadarnhaol maent yn disgwyl o berthynas; disgyblion yn ffurfio syniad o berthnasau iach a chynhyrchiol. Disgyblion yn parhau i dderbyn gwybodaeth ar newidiadau'r corff a hylendid personol gyda phwyslais ar golchi'n reolaidd a chadw'n lan, cadw heini a fwyta'n iach.

Bl.9

Mae gwybodaeth am y gwahanol ddulliau atal cenhedlu, sut i gael gafael arnyh nhw a'r cyfle i'w cael yn rhan bwysig o strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i ostwng cyfraddau beichiogrwydd anfwriadol yn yr ardegau. Mae'r fframwaith ABCh yn awgrymu y dylid rhoi cyfleoedd, yn ystod Cyfnod Allweddol 3, i ddysgwyr ddeall am ddulliau atal cenhedlu o fewn cyd-destun perthnasoedd.

Ym Mlwyddyn 9 yng Nghwynllyw, canolbwyntir ar fanteision gohirio gweithgarwch rhywiol. Yn ail, darperir gwybodaeth dwys ar risgiau Heintiau Drosoglwyddir yn Rhywiol a Pherthnasau mwy Diogel yn ystod diwrnodau di-gyswllt tymhorol, trwy nyrs yr ysgol, asiantaeth "Sex Matters" a weithiwr iechyd professiynol eraill. Yn gyffredinol, bydd nyrs yr ysgol yn cwrdd gyda grwpiau cofrestrï bl.9 i rannu cyfres o wersi ar Heintiau a Drosoglwyddir yn Rhywiol ac yn cyflwyno gwybodaeth am y ddulliau atal cenhedlu amrywiol sydd ar gael. Disgyblion yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn trafodaethau dosbarth, derbyn pamffledi unigol ac yn derbyn gwybodaeth bellach am wasanaethau a chlinigau iechyd rhywiol yn eu hardaloedd lleol.

Bl.10

Disgyblion yn derbyn 5/6 gwera ARhPh yn ystod y flwyddyn gan athrawon profiadol, cymwysedig yn y gwera "Circas ABCh" wythnosol.

- Disgyblion yn cymryd rhan mewn weithgareddau "D 'n' A" (Alcohol a Chyffuriau); Asiantaethau megis Drugaid, Heddlu Gwent, Gwasanaethau Tan ac Achub De Cymru, "Sex Matters" ac aelodau o'r gwasanaethau iechyd yn cyflwyno ystod eang o weithgareddau ARhPh sy'n hybu hunan-barch, dangos cyfrifoldeb, gofalu am eraill, gwneud penderfyniadau doeth, parchu eraill, parch mewn perthnasoedd yn ogystal a gwybodaeth pellach am ddulliau atal cenhedlu.

Bl.11

Disgyblion yn derbyn 5/6 gwera ARhPh yn ystod y flwyddyn gan athrawon profiadol, cymwysedig yn y gwera "Circas ABCh" wythnosol.

Disgyblion yn derbyn gwera craidd ychwanegol o raglen "Schoolbeat" Heddlu Gwent, sef (ers Medi 2013) "Cydsynio Rhywiol – Na yw Na" a x1 gwera atodol yn ystod y flwyddyn, sef "Ecsploetio Rhywiol – Twyll Peryglus" (newydd/ gwera peilot).

Camfanteisio'n Rhywiol

Mae Erthygl 34 CCUHP yn diogelu hawliau plant a phobl ifanc i gael eu hamddiffyn rhag cam-fanteisio rhywiol. Gall pob plentyn ac unigolyn ifanc fod mewn perygl o gam-fanteisio rhywiol. Deallir yng Ngwynllyw rol canolog yr ysgol yn y gwaith o leihau'r perygl hwn. Drwy archwilio nodweddion perthnasoedd diogel ac iachus, bwriedir annog dysgwyr i feithrin sgiliau i adnabod risgiau posibl, i gadw'n ddiogel ac i ofyn am gymorth os oes angen.

Mae'r fframwaith ABCh yng Ngwynllyw yn cynorthwyo disgyblion hefyd i feithrin agwedd ac ymddygiad cadarnhaol, gan gynnwys strategaethau i reoli dicter, rhwystredigaeth a theimladau ymosodol yn effeithiol, ac i ddatrys gwrthdaro.

Diogelwch Ar-Lein

Mae'r fframwaith ABCh yn pwysleisio pa mor bwysig yw hi i ddysgwyr ddeall pob agwedd ar ddiogelwch personol. Mae'r rhyngrwyd yn rhan annatod o fywyd nifer o ddysgwyr. Wrth i'r cyfleoedd i gymdeithasu ar-lein gynyddu, mae angen i blant a phobl ifanc wybod sut i ddefnyddio'r rhyngrwyd a thechnoleg ffonau symudol yn ddiogel a chyfrifol. Trefnir gwersi arbennig trwy gydol CA3 i annog ddysgwyr i fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd ar-lein
- beth i'w wneud a phwy i gysylltu â nhw os ydyn nhw'n teimlo'u bod mewn perygl.

Mae plant a phobl ifanc yn profi llawer o bwysau amrywiol a rhai sy'n gwrthdaro â'i gilydd. Mae darpariaeth ARhPh yng Ngwynllyw yn helpu dysgwyr i:

- wneud synnwyr o'r negeseuon a'r delweddau rhywiol maen nhw'n ei brofi yn eu bywyd dyddiol
- canfod y gwahaniaeth rhwng ffuglen a gwybodaeth ffeithiol gywir
- datblygu'r sgiliau a'r dealltwriaeth i herio negeseuon negatif neu wyrgam yn y cyfryngau ynglŷn â pherthnasoedd, rolau'r rhywiau, delwedd gorfforol ac arbrofi rhywiol
- defnyddio'r cyfryngau fel offeryn i gefnogi eu dysgu.

Materion Penodol Iechyd Rhywiol

Mae'r ddarparwyr ARhPH yng Ngwynllyw yn gosod y naws cywir am y wersi ABCh trwy gosod disgwyliadau uchel, glir i'r disgyblion ar gychwyn pob wers a phob uned o'u hymddygiad a'u hawliau yn y wers (gweler 'Rheolau Sylfaenol', tud. 4). Darperir cyfleoedd yn y gwersi i ddisgyblion mabwysiadu'r sgiliau a'r wybodaeth iddyn nhw allu gwneud penderfyniadau diogel a chyfrifol ynglŷn â'u hymddygiad rhywiol. Mae'r ymagwedd integredig yma hefyd yn galluogi dysgwyr i gydnabod a deall y cysylltiadau rhwng gweithgarwch rhywiol a mathau eraill o ymddygiad ag elfen o risg, fel camddefnyddio alcohol a sylweddau eraill anghyfreithlon.

Cyfeiriadedd Rhywiol

Wrth annog trafodaeth agored, sy'n hyrwyddo cynhwysiant ac yn herio anghydraddoldeb, yn y modd yma, bwriedir caiff anghenion pob dysgwr eu diwallu yng Ngwynllw. Dylai athrawon a weithiwr iechyd proffesiynol:

- ddelio â chyfeiriadedd rhywiol mewn ffordd onest, sensitif a heb farnu
- ateb cwestiynau priodol.

Adnoddau

Mae'r adnoddau a ddefnyddir yn y rhaglen ARhPh yn annog amrywiaeth o ddulliau dysgu ac yn gyson â fframwaith gwerthoedd cytunedig yr ysgol ar gyfer ARhPh. Defnyddiwyd adnoddau sy'n briodol ar gyfer anghenion dysgwyr ym mhob cyfnod allweddol o ran iaith, delweddau, a'r aeddfedrwydd a'r ddealltwriaeth angenrheidiol.

Os mae achos yn codi lle mae rhiant / gofalwr yn dymuno derbyn copi o'r adnoddau / deall ffynhonell yr adnodd, mae'n bosib i'r adnoddau cael eu darparu i rieni/gofalwyr trwy gopi galed neu ar ffurf e-bost.

Cyfrinachedd

Mae'n rhaid i ysgolion ddeall yn iawn beth yw terfynau eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau cyfreithiol a phroffesiynol. Mae'n ddyletswydd ar bob aelod o staff i amddiffyn dysgwyr. Adnabyddir yng Ngwynllw, Oos bydd athro/athrawes, gweithiwr iechyd proffesiynol neu unrhyw ymarferydd arall yn yr ystafell ddsbarth yn clywed neu'n gweld rhywbeth yn ystod gwersi ARhPh sy'n awgrymu bod dysgwr mewnperyl o gael ei niweidio'n ddifrifol neu o beri niwed difrifol i eraill, rhaid iddyn nhw rannu'r wybodaeth honno â'r aelod staff dynodedig sy'n gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn plant.

Mae'n bosibl bydd dysgwyr am drafod materion iechyd rhywiol sy'n deillio o ddysgu am bynciau ARhPh gydag aelod o staff maen nhw'n ymddiried ynddo. Yn yr achos hynny, bydd yr athro yn egluro wrth ddysgwyr yr hyn fydd yn digwydd i unrhyw wybodaeth bersonol a ddatgelir ganddyn nhw.

Gall disgyblion ddatgelu materion personol mewn lle neu ar amser lle mae'n anodd i'r athro/athrawes drafod y mater mewn modd priodol gyda'r dysgwr. Os bydd hyn yn digwydd, dylai'r athro/athrawes:

- ddilyn polisi cyfrinachedd ac, os oes angen, trefniadau amddiffyn plant, yr ysgol yn eu trafodaethau gyda'r dysgwr
- mynegi'n glir wrth y dysgwyr na all addo cyfrinachedd diamod
- sicrhau bod y dysgwyr yn deall y dywedir

Cynnwys y Dysgwyr

Yng Ngwynllyw, bwriedir dilyn rhaglen ARhPh sydd yn bodloni anghenion yr holl ddysgwyr.

Deallir bod rhai plant a phobl ifanc ei chael yn anodd siarad â'u rhieni/gofalwyr ac efallai eu bod yn dibynnu ar yr ysgol am y rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'u ARhPh. Felly, mae gweithgareddau ARhPH yng Nwynllyw yn ceisio, o safbwynt diwylliannol a chrefyddol, gynnwys pob dysgwr a bod yn sensitif i anghenion y gymuned leol. Bydd trafodaethau a dysgwyr, eu teuluoedd a chynrychiolwyr o grwpiau ffydd yn helpu i sefydlu ac ail-gadarnhau yr hyn sy'n briodol ac yn dderbyniol.

Cyfranogiad Disgyblion

- Mae gan ddysgwyr hawl, fel y nodwyd yn Erthygl 12 CCUHP, i gyfrannu mewn modd ystyrlon tuag at ddatblygu ac adolygu'r polisi addysg rhyw a'r rhaglen ARhPh.
- Mae cyfranogiad disgyblion, er enghraifft drwy'r cyngor ysgol, yn galluogi dysgwyr i fynegi'u safbwyntiau ynglŷn â'u hanghenion mewn cyfnodau allweddol gwahanol.
- Ni ddylai dysgwyr gael eu tynnu o gael ARhPh er mwyn treulio mwy o amser ar agweddau eraill o'r cwricwlwm.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus

- Dylai staff yr ysgol sy'n cymryd rhan yn narpariaeth y rhaglen ARhPh gael mynediad at hyfforddiant ac adnoddau cyfredol er mwyn rhoi gwybodaeth briodol i'r dysgwyr am y dulliau atal cenhedlu amrywiol, gan gynnwys dulliau atal cenhedlu brys, a pha mor effeithiol ydyn nhw.
- Dylai'r rhaglen ARhPh presennol galluogi dysgwyr i ddeall pwysigrwydd amgylchedd sefydlog, diogel a chariadus ar gyfer bywyd teuluol.
- Pan ddarperir ARhPh, dylai'r athrawon sydd wedi'u hyfforddi addysgu am natur priodas a phwysigrwydd hynny ar gyfer bywyd teuluol ac wrth fagu plant.
- Mewn cymdeithas amrywiol, daw dysgwyr o amrywiaeth o gefndiroedd ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod bod perthnasoedd ymrwymedig, sefydlog a chyd-gefnogol i'w cael tu allan i briodas. Dylai athrawon fod yn sensitif a pharchu gwahaniaethau, gan sicrhau na chaiff plant a phobl ifanc eu gwarthnodi oherwydd amgylchiadau eu cartref.

Technegau Ymbellhau

Dylai athrawon warchod preifatrwydd dysgwyr drwy ddadbersonoleiddio trafodaethau bob amser. Nid yw'n arfer da i athrawon egluro gweithgareddau dysgu drwy ddefnyddio profiadau personol. Bydd technegau ymbellhau'n helpu dysgwyr i drafod materion sensitif ac i feithrin sgiliau i wneud penderfyniadau mewn amgylchedd 'diogel' – er enghraifft:

- chwarae rôl, a all helpu dysgwyr ymarfer sgiliau ac ymddygiad
- defnyddio deunyddiau sbardunol fel ffotograffau, hysbysebion, erthyglau papur newydd
- astudiaethau achos sy'n cynnwys cymeriadau ffug gall dysgwyr berthnasu â nhw
- deunyddiau DVD priodol
- ymweliadau gan grwpiau theatr addysg.

Bydd trafodaethau sydd wedi'u cynllunio'n dda mewn grwpiau bychain/mawr neu'n cynnwys y dosbarth cyfan yn galluogi'r holl ddysgwyr i archwilio barn bersonol, egluro gwerthoedd a mynegi teimladau. Mae gweithgareddau fel amser cylch, continwmm gwerthoedd, adrodd yn ôl a dadleuon strwythuredig yn galluogi dysgwyr i fynegi a rhannu eu safbwyntiau ag eraill.

Gweithio Gyda Rhieni/Gofalwyr a'r Gymuned Ehangach

Gallai rhai rhieni/gofalwyr fod yn bryderus ynghylch cynnwys hunaniaeth rywiol a chyfeiriadedd rhywiol oddi mewn i raglen ARhPh a'r modd yr addysgir hyn mewn ysgolion. Gallai rhai rhieni/gofalwyr hefyd ei chael hi'n anodd derbyn bod plentyn yn dechrau datblygu'n rhywiol.

Deallir bwysigrwydd gadw cyswllt agos â rhieni/gofalwyr wrth lunio'u polisi addysg rhyw er mwyn tawelu eu meddyliau ynghylch cynnwys y rhaglen ARhPh a'r cyd-destun ar gyfer ei chyflwyno.

Mae gan bobl farn gref a chredoau cryf am atal cenhedlu ac mae'n bosibl bydd rhai rhieni yn mabwysiadu agwedd grefyddol neilltuol at faterion ARhPh. Dylid parchu argyhoeddiadau crefyddol dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr.

Cynnwys Gweithwyr Iechyd Proffesiynol ac Asiantaethau Allanol

Mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn ymrwymedig i'w codau ymddygiad proffesiynol. Er hynny, dylai gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gweithio mewn ysgolion fod yn gyfarwydd â pholisïau cyfrinachedd ac addysg rhyw yr ysgol a chadw mewn cof pa morbwysig yw cydymffurfio â nhw. Hefyd, dylai gweithwyr iechyd proffesiynol geisio gwarchod preifatrwydd ac atal dysgwyr rhag datgelu gwybodaeth bersonol amhriodol yn yr ystafell ddosbarth.

Y tu allan i'r sefyllfa addysgu, gall gweithwyr iechyd proffesiynol:

- roi cyngor neu wybodaeth un wrth un i ddysgwr ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd, gan gynnwys atal cenhedlu
- arfer eu barn broffesiynol eu hunain ynghylch a yw unigolyn ifanc yn ddigon aeddfed i gydsynio i driniaeth feddygol gan gynnwys triniaeth atal cenhedlu. Seilir y meini prawf ar gyfer gwneud penderfyniad o'r fath ar 'Ganllawiau Fraser'2 a 'Chanllawiau Axon'.

Monitro a Gwerthuso

- Y cydlynnydd ABCh sy'n gyfrifol am fonitro safonau dysgu ac addysgu mewn ARhPh
- Trefnir un arsylwad y flwyddyn er mwyn sicrhau safonau a datblygiadau cyfoes, perthnasol sy'n cyd-fynd gyda newidiadau yn y Fframwaith ABCh
- Bydd yr ysgol yn trefnu cyfleoedd ar gyfer cynnwys y bobl ifanc i leisio eu barn ar natur yr adnoddau a chynnwys y gwersi ArhPh .
- Mae Llais y ddisgybl yn elfen bwysig o'r broses arfarnu'r gweithgareddau ABCh, gyda chyfleoedd yn cael eu trefnu yn dilyn pob diwrnod di-gyswllt i werthuso a myfyrio ar yr elfen ArhPh a gyflwynwyd; bydd disgyblion yn cyfrannu syniadau ar yr hyn y ddysgant, dulliau dysgu a'r pynciau hoffenn nhw dderbyn mwy o wybodaeth amdanynt yn y dyfodol
- Bydd cyfathrebu effeithiol yn digwydd gyda Chyngor yr Ysgol i drafod barn a llais y ddisgybl ynglŷn â'r adnoddau a'r gweithgareddau ARhPh sydd yn cael eu cyflwyno.

Bydd y polisi yn cael ei adolygu'n gyson gan y Cydlynnydd ABCh a'i ddiweddarau'n ôl y galw.

Bydd yn cael ei gyflwyno i'r Llywodraethwyr i'w adolygu yn dilyn amserlen adolygu polisiâu'r ysgol.

Derbyniwyd gan y Llywodraethwyr: Mawrth 2014

Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr:

Llofnod y Pennaeth:

Cyfnod cyn adolygu: 2 flynedd

Dyddiad Adolygu: Mawrth 2016.